



Nyth

Adroddiad Blynyddol

Ebrill 2014 - Mawrth 2015

Rhan o raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru
Part of the Welsh Government Warm Homes programme



**Nyth
Nest**
Gwneud
Cymru'n
Glyd
Making
Wales
Cosy


Cartrefi Clyd
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Warm Homes


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagair y Gweinidog

Mae'n bleser gennyf gyflwyno pedwerydd Adroddiad Blynyddol cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ar ei newydd wedd.

Ar 17 Mehefin, cyhoeddais fy mhenderfyniad i ailfrandio ein rhaglen effeithlonrwydd ynni, sy'n cynnwys cynllun Nyth a arweinir gan alw a'n cynlluniau Arbed mewn ardaloedd penodol. O hyn ymlaen, caiff ein cynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref a thlodi tanwydd eu brandio fel Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud popeth y gallwn yn rhesymol ei wneud i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru. Rydym wedi blaenoriaethu buddsoddiad yn Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y gall deiliaid tai sy'n ei chael hi'n anodd talu'r gost o wresogi eu cartrefi gael gafael ar gyngor a chymorth i leihau eu biliau ynni. O ran y deiliaid tai hynny sydd ar yr incwm isaf neu sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, rydym wedi parhau i dargedu ein cymorth tuag at ddarparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni am ddim i'r cartref sy'n helpu i leihau biliau ynni a'r risg y gallai aelwydydd wynebu tlodi tanwydd.

Mae cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn rhan allweddol o'r gwaith a wnawn i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac rwy'n hapus gyda'r llwyddiant a amlygir yn yr adroddiad hwn. Mae'r cynllun wedi llwyddo i wella rhai o'r cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni yng Nghymru drwy nid yn unig gynyddu incwm y cartref ond hefyd drwy sicrhau bod cymorth arall ar gael, gan gynnwys Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau ac atgyfeiriadau i gael ad-daliadau o dan y cynllun Gostyngiad Cartrefi Clyd.

Gwyddom mai gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi incwm isel yw'r ffordd fwyaf uniongyrchol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn y tymor hwy. Rwy'n falch bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru yng nghynllun Nyth yn 2014-15 wedi arwain at welliannau i fwy na 4,260 o gartrefi, gan ddod â nifer y cartrefi incwm isel a wellwyd o dan y cynllun ers 2011 i fwy na 17,700. Mae hyn yn rhagori ar ein hamcangyfrif gwreiddiol o wella hyd at 4,000 o gartrefi bob blwyddyn. Dangoswyd bod y gwelliannau ynni i'r cartref a wnaed yn 2014-15 wedi cynyddu sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) 95 y cant o gartrefi, i lefel EPC o E neu uwch, gyda thros 84 y cant yn cyflawni EPC o D neu uwch. Mae'r gwelliant yn y sgôr ynni nid yn unig yn helpu i leihau biliau ynni



neu'n gwneud eiddo yn fwy cyfforddus, ond mae hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd yn y dyfodol, neu'n dioddef effeithiau andwyol byw mewn cartref oer.

Mae pob un o gynlluniau menter Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru wedi'u cynllunio i weithio ochr yn ochr â chynlluniau ledled y DU, gan sicrhau cyllid o ffynonellau eraill a chyfrannu at swyddi a thwf. Rwy'n falch bod yr adroddiad yn amlygu'r ffaith bod Nyth wedi llwyddo i sicrhau dros £1.3 miliwn o gyllid o'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) yn 2014-15. Cyflawnwyd hyn yn wyneb gostyngiadau sylweddol ym mhris carbon yn y farchnad, yn enwedig gwerth y Rhwymedigaeth Lleihau Costau Gwresogi'r Cartref (HHCRO), yn dilyn newidiadau a wnaed i ECO gan Lywodraeth y DU. O ran swyddi a thwf, mae Nyth wedi parhau i gefnogi busnesau bach a chanolig (BBaChau), gyda phob un o fesurau gwella ynni Nyth yn cael eu gosod gan BBaCh.

Yn fy nghyhoeddiad, nodais hefyd y byddwn yn buddsoddi swm sylweddol o gyllid ychwanegol yn Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn 2015-16. Rwy'n hyderus y bydd y cyllid ychwanegol a fuddsoddir yn Nyth yn arwain at lwyddiant pellach o ran cyflawni ein nodau o fynd i'r afael â thlodi tanwydd, sicrhau swyddi a thwf, a chreu Cymru decach a mwy cynaliadwy.

Carl Sargeant - Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Cynnwys

- 2 Rhagair gan Carl Sargeant - Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
- 4 Crynodeb Gweithredol
- 6 Targedau a Marchnata
- 8 Partneriaethau
- 9 Cyngor a Chymorth
 - Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni
 - Cymorth gan Drydydd Partion
 - Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau
 - Gwasanaethau Gofal a Thrwsio
 - Gostyngiad Cartrefi Clyd
 - Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
- 11 Pecynnau Gwella Ynni Cartref
- 12 Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo
- 14 Gwella Effeithlonrwydd Ynni
- 16 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru
- 17 Cyllid ECO
- 18 Boddhad Deiliaid Tai
- 19 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- 20 Edrych i'r Dyfodol

Crynodeb Gweithredol

Mae cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei bedwaredd flwyddyn. Yn 2014-15, buddsoddodd Llywodraeth Cymru dros £18 miliwn yng nghynllun Nyth er mwyn helpu aelwydydd incwm isel i leihau eu biliau tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Caiff cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ei reoli gan Nwy Prydain, sy'n gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, ar ran Llywodraeth Cymru.

Yn 2014-15, rhoddodd Nyth gyngor a chymorth diduedd am ddim i fwy na 11,100 o ddeiliaid tai; cyfanswm o dros 68,000 o ddeiliaid tai ers i'r cynllun ddechrau ym mis Ebrill 2011. Gwnaed gwelliannau i gartrefi mwy na 4,260 o'r deiliaid tai a gynorthwywyd eleni gyda chymysgedd o fesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref hefyd. Daw hyn â chyfanswm y cartrefi a wellwyd i fwy na 17,700.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyflawniadau cynllun Nyth o ran rhoi cyngor a chymorth i aelwydydd mewn tldi tanwydd yn 2014-15 a'r blaenoriaethau ar gyfer 2015-16.

Ymhlith y prif fuddiannau amcangyfrifedig a sicrhawyd drwy becynnau gwella ynni cartref Nyth eleni mae'r canlynol:

- Cynnydd cyfartalog mewn sgôr effeithlonrwydd ynni o fwy na **38 o bwyntiau SAP**, gyda dros 95% o eiddo yn cael ei symud o sgôr F neu G
- Gostyngiad cyfartalog a fodelwyd mewn costau biliau tanwydd blynyddol o **£477** y flwyddyn fesul aelwyd, sef cyfanswm arbediad dangosol o fwy na £2 filiwn ar filiau ynni blynyddol aelwydydd.
- Gostyngiad cyfartalog a fodelwyd o **12,138** o unedau ynni fesul aelwyd

"Mae fy ngwraig a minnau yn bensynwyr mewn iechyd gwael felly mae'r boeler cyfunol a'r rheiddiaduron newydd a osodwyd yn fendith" - Mr Jones, Pontypridd

fynd iddi i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth da ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau. Mae'r gwasanaeth yn helpu i sicrhau bod aelwydydd sy'n gymwys i gael gwelliannau ynni cartref Nyth yn cael eu hatgyfeirio at y cynllun. Yn 2015-16, bydd y gwasanaeth hefyd yn darparu llwybr atgyfeirio i ddeiliaid tai nad ydynt yn gymwys i gael gwelliannau ynni cartref Nyth ond sydd am gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau cymorth eraill.

Ystyried beth arall y gellir ei wneud i helpu aelwydydd mewn ardaloedd gwledig gyda mesurau priodol ar gyfer eu heiddo.

Yn ystod 2014-15, cymunedau gwledig oedd un o flaenoriaethau'r cynllun o hyd, gan lywio ffocws daearyddol gweithgarwch marchnata a chyfathrebu.

Mae'r ffocws ar gartrefi gwledig sy'n anodd eu cyrraedd wedi sicrhau bod dros draean o'r aelwydydd a dderbyniodd welliannau ynni cartref am ddim eleni yn byw mewn ardaloedd gwledig yn bennaf.

Mae Nyth yn ymrwymedig i sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, fod cyllid ECO yn cael ei gynnwys yng nghynllun Nyth er mwyn helpu mwy o aelwydydd yng Nghymru.

Parhaodd Nyth i sicrhau cyllid o'r Rhwymedigaeth Cwmniâu Ynni, a gafodd ei ailfuddsoddi yn y cynllun i alluogi mwy o aelwydydd incwm isel yng Nghymru i gael budd o welliannau ynni cartref. Llwyddodd Nyth i sicrhau dros £1.3 miliwn o gyllid ECO i Gymru yn 2014-15 er gwaethaf y gostyngiad ym mhris carbon yn y farchnad.

Blaenoriaethau Nyth ar gyfer 2014-15 oedd:

Targedu mwy o aelwydydd incwm isel sy'n agored i niwed ac aelwydydd mewn ardaloedd gwledig.

Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth, sy'n gweithredu ledled Cymru, yn ymgysylltu â'r trydydd sector, y sector cyhoeddus a sefydliadau partner eraill sy'n cyrraedd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, aelwydydd incwm isel ac aelwydydd sy'n agored i niwed sy'n byw yn y cartrefi anoddaf i'w gwresogi.

Eleni, mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth wedi canolbwyntio ar ddatblygu cydberthnasau â phartneriaid newydd a phresennol, gan gynnwys cysoni mwy o weithgareddau â chynlluniau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru, er mwyn cyrraedd aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.

Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth hefyd wedi canolbwyntio ar annog cynifer o sefydliadau partner â phosibl i ddefnyddio Porth Partneriaid Nyth gan fod hyn yn galluogi partneriaid i gyflwyno ceisiadau ac olrhain canlyniadau.

Ym mis Hydref 2014, lansiodd Llywodraeth Cymru ei gwasanaeth newydd Cymru Effeithlon gyda'r nod o sicrhau bod gan aelwydydd a busnesau fan y gallant

Targeddu a Marchnata


Mae Nyth yn cynnig ystod o gyngor a chymorth i ddeiliaid tai er mwyn eu helpu i leihau eu biliau ynni. Gall y cynllun ddarparu pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim i ddeiliaid tai sydd â'r angen mwyaf ac na allant fforddio gwneud eu cartrefi yn fwy ynni effeithlon.

Nodir aelwydydd mewn tlodi tanwydd ledled Cymru drwy ddadansoddi amrywiaeth eang o setiau data yn fanwl gan gynnwys data Cronfa Ddata Effeithlonrwydd Ynni Cartref, Byw yng Nghymru, y Cyfrifiad a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r dadansoddiad data yn mapio manylion tebygol deiliaid â mathau o eiddo, deiliadaeth eiddo a'r tebygolrwydd o gysylltiadau nwy er mwyn nodi cartrefi a allai fod yn defnyddio ynni'n aneffeithlon.


Mae Nyth, sy'n cydnabod y gall cwsmeriaid mewn tlodi tanwydd fod ymhlith y bobl anoddaf i'w cyrraedd, yn herio ac yn adolygu ei strategaethau a'i ddulliau marchnata yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn nodi ac yn targedu'r

aelwydydd sydd â'r angen mwyaf. Mae Nyth yn defnyddio dull marchnata aml-sianel ynghyd ag ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ledled Cymru (gweithgarwch yn y cyfryngau a hysbysebion radio) ac ymgyrchoedd post uniongyrchol wedi'u targedu. Gweithiodd Nyth gyda sefydliadau partner newydd a phresennol i ddeall sut y gall fynd ati i nodi a thargeddu cymorth at aelwydydd mewn tlodi tanwydd. Mae'r Tîm Datblygu Partneriaethau wedi parhau i feithrin cydberthnasau â rhanddeiliaid ledled Cymru, gan gydweithredu'n agos ag awdurdodau lleol, asiantaethau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r aelwydydd a fu'n holi ynghylch cynllun Nyth fesul ardal awdurdod lleol ac mae'n parhau i ddangos dosbarthiad tebyg i 2013-14.



Mae'r siart isod yn dangos ffynhonnell ymholiadau i Nyth. 'Ar lafar' yw'r ffynhonnell fwyaf (49%) eto eleni. Bydd hyn wedi cael ei atgyfnerthu gan weithgarwch marchnata yn ystod y flwyddyn wrth i fwy o bobl ddod i wybod am y cynllun. Mae gwaith partneriaeth effeithiol i gynhyrchu ymholiadau yn hanfodol i lwyddiant parhaus cynllun Nyth ac mae'n cyfrif am 33% o'r ymholiadau (21% gweithgarwch partneriaid a 12% post partneriaid). Cafodd gwefan Nyth ei hailddylunio yn ystod y flwyddyn a'i hyrwyddo drwy holl ddeunydd hysbysebu a hyrwyddo Nyth. Rhoddodd gyfrif am 14% o'r ymholiadau a gafwyd (9% yn 2013-14). Mae'r wefan yn darparu amrywiaeth o daflenni ffeithiau i gefnogi ymwelwyr, yn amlinellu gwasanaethau'r cynllun ac yn annog aelwydydd a all fod yn gymwys i gael gwelliannau ynni cartref i gysylltu â'r Tîm Cyngor.




Tlodi Tanwydd

Ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy na 10% o'u hincwm ar gostau ynni yn byw mewn tlodi tanwydd a bod aelwydydd sy'n gwario mwy nag 20% o'u hincwm yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Gofynnir i ddeiliaid tai sy'n cysylltu â Nyth nodi eu hincwm pan fyddant yn gwneud eu cais er mwyn i'r data gael eu defnyddio ochr yn ochr â chostau rhedeg a fodelwyd ar gyfer eu haelwyd.¹

Mae lefel y tlodi tanwydd datganedig a ddangosir yn y siart isod yn dangos bod 84% o'r deiliaid tai a gysylltodd â Nyth yn byw mewn tlodi tanwydd (47% mewn tlodi tanwydd a 37% mewn tlodi tanwydd difrifol), i fyny 2% o gymharu â 2013-14.

Dylid trin y ffigurau hyn â gofal gan mai dim ond 57% o'r deiliaid tai a gysylltodd â Nyth yn 2014-15 a gytunodd i roi manylion ynghylch eu hincwm. Hefyd, lle rhoddwyd incwm y cartref, ni chynhaliwyd proses ddilysu i gadarnhau bod yr incwm a nodwyd yn gywir.



¹ Defnyddir data a fodelwyd yn hytrach na gwariant gwirioneddol ar gyfer costau rhedeg yr aelwyd gan fod llawer o gwsmeriaid yn diffodd eu gwres er mwyn rheoli eu costau ynni.



Partneriaethau

Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd sector, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol sy'n chwarae rôl allweddol wrth alluogi Nyth i gyfleu buddiannau'r cynllun a chyrraedd cynifer o'r aelwydydd sydd angen cymorth â phosibl.

Mae pedwar Rheolwr Datblygu Partneriaethau sy'n cydgysylltu cydberthnasau â channoedd o sefydliadau partner yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys elusennau cenedlaethol, byrddau iechyd rhanbarthol, Awdurdodau Lleol a chymdeithasau cymunedol lleol. Maent yn gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n helpu Nyth i gyrraedd yr aelwydydd sydd â'r angen mwyaf, er enghraifft:

- Gwasanaethau cyngori ledled Cymru (e.e. Canolfan Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol)
- Pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol (e.e. Cymunedau yn Gyntaf a Banciau Bwyd)
- Pobl Hŷn (e.e. Age Cymru, Gofal a Thrwisio ac Age Concern)
- Teuluoedd â Phlant Ifanc (e.e. Achub y Plant, Teuluoedd yn Gyntaf a Barnardos)
- Pobl Ddi-waith (e.e. Canolfannau Byd Gwaith ledled Cymru)
- Pobl Anabl (e.e. Action on Hearing Loss, Sight Cymru, Deafblind Cymru a Sense Cymru)
- Pobl â salwch hirdymor (e.e. Macmillan, Y Gymdeithas Strôc, Eiriolaeth Iechyd Meddwl Eiriol a'r Gymdeithas Alzheimer)

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio ledled Cymru ac yn meithrin partneriaethau er mwyn cyrraedd cymunedau drwy wasanaethau cyngori galw heibio, cyfarfodydd, sgysiau, digwyddiadau a chyhoeddiadau partneriaid. Caiff pob partneriaeth ei chefnogi gyda chyflwyniadau a hyfforddiant er mwyn helpu staff a gwirfoddolwyr i gyfleu buddiannau Nyth yn gywir.

Yn ystod y flwyddyn, mae Nyth wedi mynd ati i geisio cynyddu nifer y sefydliadau partner sy'n defnyddio'r wefan Porth Partneriaid sy'n galluogi partneriaid i gyflwyno ceisiadau ac olrhain canlyniadau ceisiadau.

Ymhlith yr enghreifftiau o waith partneriaeth llwyddiannus ac ymgysylltu â'r cyhoedd mae'r canlynol:

Mynychodd Nyth nifer o sesiynau allgymorth gyda **Bws Camu Ymlaen Cymunedau yn Gyntaf Sir Ddinbych**. Gan ddefnyddio llyfrgell symudol wedi'i thrawsnewid, datblygwyd prosiect Camu Ymlaen gan Cymunedau yn Gyntaf De-orllewin y Rhyl a phartneriaid lleol. Mae wedi'i gynllunio i annog mwy o bobl i fanteisio ar wasanaethau lleol a fydd yn gwella eu bywydau, lleihau tlodi a rhoi cyfleoedd iddynt ehangu eu dyheadau

Cychwynnodd Nyth bartneriaeth â **Cymunedau yn Gyntaf Cwm Afan ac Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot**. Yn sgil y bartneriaeth, cynhaliwyd her gelf arbed ynni 'Switch On to Switching Off' ar gyfer saith o ysgolion cynradd Cwm Afan. Aeth y partneriaid ati i sefydlu a hyrwyddo cyfres o weithdai i'r teulu. Tra roedd y plant yn mwynhau'r cyfle i greu gwaith celf a dysgu am arbed ynni, cafodd rhieni a gwarcheidwaid eu cyflwyno i'r ystod o gymorth sydd ar gael gan y tri phartner.

Sefydlodd Nyth gydberthynas â **Bwrdd Iechyd Hywel Dda**, gan weithio gyda thimau iechyd yr amgylchedd a phrofiad cleifion. Arweiniodd hyn at ymgyrch i gyrraedd staff, cleifion ac ymwelwyr. Cafodd Nyth ei hyrwyddo ymlith y staff drwy negeseuon e-bost, y fewnwyd a phosteri ym mhedwar prif ysbyty'r bwrdd iechyd. Gwahoddwyd aelodau o staff i fynychu sesiynau hyfforddi ar dlodi tanwydd hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o Nyth. Cyrhaeddwyd cleifion ac ymwelwyr â'r ysbytai drwy gyfres o ddigwyddiadau gwybodaeth gyhoeddus a chyhoeddiadau.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cynhaliodd Nyth arolwg o randdeiliaid er mwyn mesur lefelau ymgysylltu â'r cynllun a nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu. Defnyddir canfyddiadau'r arolwg i lywio gweithgarwch marchnata a datblygu partneriaethau yn 2015-16.

Cyngor a Chymorth

Rhoddodd Nyth gyngor wedi'i deilwra ac atgyfeiriadau i wasanaethau trydydd parti i fwy nag 11,100 o aelwydydd yn 2014-15.²

Pan fydd deiliaid tŷ yn cysylltu â chynllun Nyth, bydd cyngorydd yn penderfynu a yw'n gymwys i gael pecyn o welliannau ynni cartref am ddim. Ni waeth beth fo'r canlyniad, mae'r cyngorydd yn rhoi cyngor a chymorth i nodi gwasanaethau eraill a all fod o fudd i'r cwsmer:


- Cyngor effeithlonrwydd ynni ar y camau i'w cymryd i ddefnyddio llai o ynni (e.e. troi'r thermostat i lawr, peidio â gorenwi tegellau)
- Gofynion inswleiddio'r cartref
- Teclynau rheoli gwres a sut i'w defnyddio orau
- Cyngor ar drafnidiaeth (e.e. gyrru doethach, dewis o gerbyd a dewisiadau trafnidiaeth arall)
- Gwybodaeth am dechnolegau ynni adnewyddadwy
- Cyngor ar ddeall biliau cyfleustodau
- Canllawiau ar declynnau'r cartref
- Grantiau a gwasanaethau trydydd parti

Cymorth gan Drydydd Partïon

Over six thousand households were referred or recommended to contact one or more third party services this year, including:

- **Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau** - mae Canolfan Gyngori Riverside a Chanolfan Gyngori Speakeasy yn darparu gwasanaeth adolygu i gwsmeriaid Nyth i'w helpu i wneud y mwyaf o'u hincwm
- **Gwasanaethau Gofal a Thrwisio** - mae Gofal a Thrwisio yn darparu gwasanaeth tasgmon, gwasanaeth gweithiwr achos, help gyda grantiau ac offer gwresogi dros dro i gwsmeriaid cymwys
- **Gostyngiad Cartrefi Cilyd** - mae'r prif gyflenwyr ynni yn rhoi gostyngiad o £140 oddi ar filiau ynni cwsmeriaid cymwys yn 2014-15
- **Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru** - gall aelwydydd sy'n agored i niwed gael gwiriad diogelwch tân ar gyfer y cartref a larymau mwg am ddim
- **Cyngor ar ddyled** - mae Canolfan Gyngori Riverside a Chanolfan Gyngori Speakeasy yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid hefyd ar leihau dyledion ynni a dyledion y cartref
- **Cyngor ar reoli arian** - mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar reoli dyled ac ymdrin ag incwm a thaliadau'n fwy effeithiol

- **Cyngor ar dariffau ynni** - mae Which? yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar y tariff a'r cyflenwr mwyaf effeithiol ar gyfer amgylchiadau'r cwsmer
- **Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth WPD** - Os ydych yn bensiynwr, os oes gennych salwch hirdymor, os ydych wedi'ch cofrestru'n anabl neu os oes gennych nam ar eich clyw neu eich golwg, efallai y gallech fod yn gymwys i gael help ychwanegol a gynigir gan gyflenwyr ynni drwy'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth
- **Taliad Tanwydd Gaeaf** - Byddai'r sawl a aned ar 5 Gorffennaf 1952 neu cyn hynny yn gymwys i gael Taliad Tanwydd Gaeaf gwerth rhwng £200 a £300 ar gyfer gaeaf 2014-15.



Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Nyth wedi parhau i adolygu a gwella'r broses sgrinio ar gyfer atgyfeiriadau i drydydd parti, gan anelu at wella ansawdd y wybodaeth a ddarperir. Mae hyn wedi arwain at leihad yn nifer yr atgyfeiriadau a wneir i rai trydydd parti ond cynnydd yn nifer yr allbynnau llwyddiannus.

² Gallai'r lleihad yn nifer yr aelwydydd a gafodd cyngor o gymharu â 2013-14 fod yn rhannol oherwydd effeithlonrwydd y broses uniongyrchol o dargedu aelwydydd sy'n gymwys i gael welliannau ynni cartref. Lleihad yn nifer yr eiddo â sgôr F a G, a mwy o ymwybyddiaeth o feini prawf cymhwysedd, gan gynnwys mwy o ddefnydd o'r wefan.

Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau

Nodwyd bod 115 o aelwydydd yn gymwys i gael budd-daliadau blynyddol newydd neu ychwanegol gwerth £2,088 fesul aelwyd ar gyfartaledd o ganlyniad i atgyfeiriad gan gynllun Nyth i gael Gwiriad Hawl i Fudd-daliadau. Arweiniodd hyn at gynnydd posibl o £240,000 yn y budd-daliadau y manteisiwyd arnynt eleni a thros £1.64 miliwn yn y pedair blynedd ers sefydlu cynllun Nyth.

O ganlyniad i'r system o atgyfeirio cwsmeriaid at Ganolfan Gyngori Riverside a Chanolfan Gyngori Speakeasy, bu modd i Nyth olrhain canlyniadau'r atgyfeiriadau i gael Gwiriad Hawl i Fudd-daliadau; nodwyd bod 13% o'r cwsmeriaid a atgyfeiriwyd yn gymwys i gael incwm ychwanegol.

Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau Nyth	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	910
Nifer y deiliaid tai a hawliodd fudd-daliadau newydd/ychwanegol	115
Cynnydd cyfartalog yn yr incwm blynyddol	£2,088.19

Ar ôl Gwiriad Hawl i Fudd-daliadau, rhoddir gwybod i gwsmeriaid am y camau nesaf ar gyfer gwneud cais am fudd-dal a chânt eu cyfeirio at wasanaethau cymorth wyneb yn wyneb lleol. Mae Canolfan Gyngori Riverside a Chanolfan Gyngori Speakeasy yn cyflwyno adroddiad i Nyth ar ganlyniad pob atgyfeiriad ac, os yw'r cwsmer yn gymwys i gael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, cânt eu cynghori i ddychwelyd at Nyth i weld a ydynt yn gymwys i gael asesiad tŷ cyfan. Mae Nyth wedi gweld nifer o lwyddiannau o ganlyniad i'r broses hon.

Gwasanaethau Gofal a Thrwsio

Bob blwyddyn, mae Nyth yn atgyfeirio cwsmeriaid cymwys at Gofal a Thrwsio Cymru i gael amrywiaeth o wasanaethau cymorth fel y nodir isod:

Gwasanaethau Gofal a Thrwsio	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	488
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth tasgmon	22
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth offer gwresogi dros dro	1
Nifer y deiliaid tai a gafodd cymorth grant	4
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth gweithiwr achos	135
Nifer y deiliaid tai a gafodd gyngor yn unig	23

Gostyngiad Cartrefi Clyd

Cafodd bron dwy fil o gwsmeriaid eu hatgyfeirio at eu cyflenwr ynni i gael y Gostyngiad Cartrefi Clyd. Derbyniodd Nyth gadarnhad gan bedwar cyflenwr ynni a ddangosodd fod 14% ohonynt yn gymwys i gael y gostyngiad, gan arbed cyfanswm o £38,360.

Gostyngiad Cartrefi Clyd	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	1982
Nifer y deiliaid tai a gafodd y Gostyngiad Cartrefi Clyd	274
Gwerth y Gostyngiad Cartrefi Clyd	£38,360

Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

Atgyfeiriodd Nyth 235 o gwsmeriaid at Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, i fyny o 115 yn 2013-14, a chafodd 85 ohonynt adroddiad diogelwch yn y cartref.

Gwasanaeth Tân Powys a Chanolbarth a Gorllewin Cymru	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	235
Nifer y deiliaid tai a gafodd adroddiad diogelwch yn y cartref	85

Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni (ESAS)

Caiiff cwsmeriaid nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymwys ar gyfer pecyn o fesurau Nyth, ac nad oes ganddynt ddi-ddordeb yn yr atgyfeiriadau lleol a gynigir gan Nyth, eu cyfeirio at ESAS i gael rhagor o gymorth. Cafodd dros 2,500 o gwsmeriaid eu cyfeirio at ESAS eleni ac, o'r rheini, roedd 78% yn debygol o fod yn gwsmeriaid sy'n gymwys i fanteisio ar ECO a 22% yn gwsmeriaid sy'n gymwys i fanteisio ar y Fargen Werdd.

Pecynnau Gwella Ynni Cartref

Caiff cwsmeriaid sy'n cysylltu â Nyth eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys i fanteisio ar becyn o welliannau ynni cartref am ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru.


Pan fydd cwsmeriaid yn bodloni meini prawf y cynllun, sef eu bod yn byw mewn eiddo preifat neu eiddo a gaiff ei rentu'n breifat, eu bod yn cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd a bod gan yr eiddo y maent yn byw ynddo sgôr ynni ddangosol o F neu G, trefnir asesiad o'r tŷ cyfan.

Bydd asesydd cwbl gymwys yn ymweld â chartref y cwsmer i gadarnhau a yw'n gymwys, yn cwblhau asesiad o'r tŷ cyfan ac yn nodi, lle y bo angen, y mesurau mwyaf priodol a chosteffeithiol ar gyfer yr eiddo a'r cwsmer.

Os bydd y cwsmer yn penderfynu manteisio ar y pecyn o fesurau, bydd y tîm yn sicrhau bod yr holl ganiadau a chydysniadau gofynnol (landlord, cynllunio ac ati) a gofynion trydydd parti (cysylltiadau nwy, gwaredu asbestos ac ati) yn cael eu bodloni cyn cytuno ar y dyddiadau gosod gyda'r cwsmer. Caiiff yr holl wasanaethau gwresogi a gosod eu darparu gan rwydwaith o fusnesau bach a chanolig (BBaChAU) lleol, o dan oruchwyliaeth a rheolaeth tîm Nyth. Cynhelir archwiliad o'r gwaith unwaith y bydd tîm Nyth wedi derbyn cadarnhad bod y pecyn o fesurau wedi'i osod. Os bydd arolygydd Nyth yn nodi unrhyw ddiffygion, byddant yn sicrhau bod unrhyw waith adferol sydd ei angen yn cael ei gwblhau'n gyflym ac effeithiol.

Mae pecynnau gwelliannau ynni cartref Nyth wedi'u cynllunio ar gyfer eiddo unigol felly nid oes pecyn safonol o fesurau. Gallai'r mesurau mwyaf priodol a chosteffeithiol a argymhellir gynnwys mesurau fel boeler newydd, system gwres canolog, inswleiddio'r atig neu inswleiddio waliau ceudod a gall rhai ohonynt gynnwys technolegau mwy diweddar fel pypiau gwres ffynhonnell aer ac inswleiddio waliau allanol.

Gwres canolog a/neu inswleiddio safonol (atig/walieu ceudod) yw'r prif waith a wneir gan gynllun Nyth o hyd. Gosodwyd 4,218 o systemau gwres canolog, 536 o fesurau inswleiddio safonol a 70 o fesurau inswleiddio uwch. Mae'r systemau gwres canolog a osodir drwy Nyth yn cynnwys sawl mesur e.e. boeler, rheiddiaduron, thermostat ar gyfer ystafelloedd, falfriau rheiddiaduron thermostatig a phibellau lle y bo angen.



- 87.4% Gosod Gwres Canolog
- 11.1% Inswleiddio Safonol
- 1.5% Inswleiddio Uwch


Mae Talebau Grant Rhannol yn parhau i fod yn elfen o'r cymorth a roddir gan Nyth sy'n helpu aelwydydd sy'n agored i niwed (neu lle mae'r ymgeisydd yn 60 oed neu drosodd, yn anabl neu'n dioddef salwch cronig, yn feichiog, neu'n byw gyda phlentyn o dan bump oed) i dalu cost inswleiddio waliau ceudod a/neu atig. Mae cynigion ECO yn fwy deniadol na'r Daleb Grant Rhannol yn gyffredinol. Rhoddwyd saith taleb yn 2014-15 a dim ond un cais a wnaed.



Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo

Mae Nyth wedi parhau i gyrraedd yr aelwydydd ledled Cymru sydd â'r angen mwyaf ac na allant ffordio gwneud eu cartref yn fwy effeithlon o ran ynni.

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o statws deiliadaeth ar gyfer aelwydydd sy'n cael pecyn gwelliannau ynni cartref.




71% Perchennog 29% Rhentu'n Breifat

Gofynnir i deiliaid tai nodi eu hincwm pan fyddant yn gwneud eu cais er mwyn i'r data hyn gael eu defnyddio ochr yn ochr â chostau rhedeg a fodelwyd ar gyfer eu haelwyd i amcangyfrif a ydynt yn byw mewn tldi tanwydd. Mae gwariant o fwy na 10% o incwm yr aelwyd ar ynni yn nodi bod yr aelwyd yn byw mewn tldi tanwydd ac mae gwariant o fwy nag 20% yn nodi bod aelwydydd mewn tldi tanwydd difrifol.³

Mae statws tldi tanwydd aelwydydd yn dangos bod 60.3% o'r rhai a gafodd pecyn gwelliannau ynni cartref yn byw mewn tldi tanwydd. Roedd 39.3% o'r aelwydydd hynny mewn tldi tanwydd difrifol (i fyny o 23% yn 2013-14).


Mae canran y bobl sy'n defnyddio Nyth y mae eu hincwm datganedig yn dangos eu bod yn byw mewn tldi tanwydd yn sylweddol uwch nag o dan y cynllun HEES blaenorol, lle amcangyfrifwyd bod llai na 30% o'r deiliaid tai a gynorthwywyd yn byw mewn tldi tanwydd. Mae hyn yn dangos bod meini prawf cymhwysedd Nyth yn fwy effeithiol o ran nodi a chefnogi aelwydydd mewn tldi tanwydd.



39.7% Ddim mewn tldi tanwydd
39.3% Tldi tanwydd difrifol
21% Tldi tanwydd

Dylid trin y ffigurau hyn â gofal gan mai dim ond 57% o'r deiliaid tai a gysylltodd â Nyth a gytunodd i roi manylion ynghylch eu hincwm yn 2014-15. Hefyd, lle rhoddwyd incwm y cartref, ni chynhaliwyd proses ddilysu i gadarnhau bod yr incwm a nodwyd yn gywir.

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r deiliaid tai a gafodd becyn gwelliannau ynni cartref yn ôl eu hoedran. Roedd dros hanner y deiliaid tai o oedran gweithio (52.8% rhwng 24 a 59 oed) gyda chynnydd bach yn y rhai rhwng 60 a 69 oed (17.8%) a thros 70 oed (26.9%) o gymharu â 2013-14.




2.5% O dan 24 52.8% 24-59 17.8% 60-69 26.9% 70 a Throsodd

Dengys dadansoddiad o ddsbarthiad trefol a gwledig cwsmeriaid a gafodd becyn gwelliannau ynni cartref yn y siart isod. Nodir bod tua dwy ran o dair o'r aelwydydd yn byw mewn ardaloedd trefol a thraean ohonynt yn byw mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad y boblogaeth yng Nghymru lle mae 66% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd trefol a 34% yn byw mewn ardaloedd gwledig.⁴




32.3% Gwledig 67.7% Trefol

Nid oedd 25.8% o gwsmeriaid ar y grid nwy cyn i fesurau gael eu gosod o dan y cynllun. Mae hyn yn dilyn cynnydd sylweddol yn 2013-14, fel y dangosir yn y siart isod.



74.2% Ar y Grid Nwy 25.8% Ddim ar y Grid Nwy

Dangosir dadansoddiad o aelwydydd sydd wedi cael pecyn gwelliannau ynni cartref yn ôl math o eiddo yn y graff isod. Eiddo canol a phen teras oedd y math o eiddo a gafodd eu trin amlaf o dan y cynllun, gan gyfrif am dros draean (39%) o'r holl osodiadau. Fflatiau a maisonettes a dderbyniodd y nifer lleiaf o osodiadau ar draws y cynllun; fodd bynnag, mae'r mathau hyn o eiddo yn dueddol o fod yn fwy effeithlon o ran ynni na thai gan fod anheddau eraill uwch eu pennau ac wrth eu hochr yn aml yn eu cysgodi ac yn eu hatal rhag colli gwres.



27.9% Tŷ Canol Teras 11.6% Tŷ Sengl 27.6% Tŷ Pâr 11.2% Tŷ Pen Teras 15.3% Byngalo 6.4% Fflat

³ Defnyddir data a fodelwyd yn hytrach na gwariant gwirioneddol ar gyfer costau rhedeg yr aelwyd gan fod llawer o gwsmeriaid yn diffodd eu gwres er mwyn rheoli eu costau ynni.

⁴ Mae'r diffiniadau o Drefol a Gwledig yn seiliedig ar ddsbarthiadau a dderbynnir sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Gwella effeithlonrwydd ynni



Mae gwelliannau ynni cartref Nyth wedi sicrhau arbedion amcangyfrifedig cyfartalog o £477 y flwyddyn fesul aelwyd ar filiau ynni, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd mewn tloedi tanwydd.

Mae cynllun Nyth yn cyfrifo effeithiau gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gartrefi gan ddefnyddio sgôr RdSAP. Mae'r feddalwedd yn mesur sgôr SAP cyn ac ar ôl i fesurau addas gael eu gosod. Y nod yw gosod pecyn o fesurau er mwyn cynyddu sgôr ynni eiddo tuag at sgôr SAP o C lle y bo'n bosibl, pan fo'n gosteffeithiol i wneud hynny. Caiff y mesurau gwirioneddol a osodir eu hailfodelu er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i'r pecyn gwreiddiol o ganlyniad i broblemau technegol neu am fod cwsmeriaid wedi newid eu meddwl.⁵

Mae asesydd Nyth yn nodi sgôr SAP gyfredol yr eiddo a'r sgôr SAP bosibl pe bai pecyn gwelliannau ynni cartref yn cael ei osod. Mae eiddo band A yn defnyddio ynni'n effeithlon iawn a'r rhain fydd â'r costau rhedeg isaf; mae gan eiddo band G sgôr effeithlonrwydd ynni gwael sy'n golygu y bydd yn costio mwy i'w gwresogi a'u goleuo i'r un safon.

Mae budd-daliadau yn seiliedig ar ganlyniadau a fodelwyd a bydd y gostyngiadau a'r arbedion gwirioneddol yn dibynnu ar ymddygiad y cwsmer unigol. Yn aml, nid yw aelwydydd mewn tloedi tanwydd yn gwresogi eu cartrefi yn effeithiol ac felly, mewn rhai achosion, bydd y buddiannau i'r cwsmer yn cynnwys eiddo mwy cyfforddus a lles gwell wrth i'r cartref gael ei wresogi'n fwy effeithiol, yn hytrach na gostyngiad mewn biliau tanwydd.

Mae'r siartiau hyn yn dangos dadansoddiad fesul band SAP ar gyfer aelwydydd cyn ac ar ôl iddynt gael pecynnau gwelliannau ynni cartref. Roedd pob un o'r eiddo lle y gosodwyd mesurau yn aelwydydd effeithlon iawn o ran ynni - sgôr F (69.3%) neu G (30.7%). Ar ôl gosod y pecyn gwelliannau ynni cartref, cafodd dros 95% o eiddo â sgôr F neu G eu symud i sgôr arall. Roedd 84% o eiddo wedi'i wella i fand D neu uwch. Mae'n bosibl y bydd gan rai eiddo sgôr F neu G o hyd am na fu'n bosibl dangos y byddai'r mesurau mwy cynhwysfawr yn sicrhau gwerth am arian neu, mewn rhai achosion, mae'r sgôr SAP wedi'i gostwng hyd yn oed lle mae tanwydd solet wedi'i osod yn lle olew/LPG ar gais y deiliad tŷ gan fod tanwydd ar gael iddynt yn rhad neu am ddim.



⁵ RdSAP a SAP - Y Weithdrefn Asesu Safonol yw methodoleg Llywodraeth y DU ar gyfer asesu a chymharu perfformiad ynni a pherfformiad amgylcheddol anheddau. Cyflwynwyd SAP data gostyngol (RdSAP) yn ddiweddarach fel ffordd fwy costeffeithiol o asesu anheddau a oedd yn bodoli eisoes.

Mae'r siart yn dangos dadansoddiad o arbedion ynni a fodelwyd fesul aelwyd lle y gosodir mesurau fesul awdurdod lleol, gydag arbediad cyfartalog amcangyfrifedig o £477 y flwyddyn neu 12.1kWh y flwyddyn. Mae hefyd yn dangos dadansoddiad yn ôl gostyngiadau mewn allyriadau carbon

dros oes yr aelwydydd sy'n cael pecyn gwelliannau ynni cartref. Yn ôl yr hyn a fodelwyd, bydd cyfanswm yr allyriadau oes yn gostwng ychydig o dan 194k tCO gan amrywio o 1.5k tCO yn Sir Fynwy i dros 24k tCO yn Sir Gaerfyrddin.

Awdurdod Lleol	Cyfanswm y CO ₂ a Arbedir mewn Oes	Cyfartaledd a Arbedir o ran y Defnydd o Ynni	Cyfartaledd a Arbedir yn Flynyddol ar Gostau Tanwydd
Ynys Môn	7,219	17,226	£728
Gwynedd	17,316	16,593	£648
Sir Gaerfyrddin	24,130	13,917	£574
Caerffili	11,775	12,842	£544
Ceredigion	10,832	13,669	£529
Sir Benfro	12,324	13,740	£525
Castell-nedd Port Talbot	8,569	12,812	£513
Pen-y-bont ar Ogwr	8,362	11,599	£493
Bro Morgannwg	5,334	12,358	£473
Powys	8,182	13,444	£462
Wrecsam	3,590	11,811	£449
Abertawe	9,165	11,415	£446
Merthyr Tudful	2,746	10,937	£429
Caerdydd	9,620	10,768	£420
Rhondda Cynon Taf	16,936	9,694	£419
Sir y Fflint	6,547	10,677	£411
Conwy	9,344	11,331	£404
Casnewydd	4,606	10,541	£387
Sir Fynwy	1,544	9,277	£368
Sir Ddinbych	9,688	10,637	£352
Torfaen	2,314	9,548	£348
Blaenau Gwent	2,988	8,594	£292
Cyfanswm	193,130	12,138	£477

“Roeddem yn ei chael hi'n anodd prynu gwres ar ein pensiwn ni. Bu Nyth o gymorth mawr iawn i ni a rŵan mae gennym gartref cynnes.”


- Mr P, Conwy




Buddsoddiad Llywodraeth Cymru

Yn ystod 2014-15, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £18 miliwn drwy fesurau Nyth.

Dangosir cyfanswm gwariant ar gyfer aelwydydd a gafodd fesurau fesul awdurdod lleol isod.



Mae'r siart isod yn dangos y gwariant cyfartalog ar gyfer aelwydydd a gafodd fesurau fesul awdurdod lleol.



Cyllid ECO

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmniau Ynni (ECO) yn rhan o rwymedigaethau effeithlonrwydd ynni domestig Llywodraeth y DU i gyflenwyr ynni.

Parhaodd Nyth a Llywodraeth Cymru i gydweithio'n agos er mwyn sicrhau'r cyllid ECO mwyaf posibl ar gyfer Nyth. Llwyddodd Nyth i sicrhau dros £1.3 miliwn o gyllid ECO i Gymru, gan alluogi Nyth i gynorthwyo mwy o aelwydydd a chynyddu cyfanswm yr arbedion ariannol, tanwydd a charbon i aelwydydd ledled Cymru. Mae'r cyllid a sicrhawyd gan ECO yn gyfuniad o'r Rhwymedigaeth Lleihau Costau Gwresogi Cartref

(HHCRO) a'r Rhwymedigaeth Lleihau Allyriadau Carbon (CERO).

Mae gwerth ECO a sicrhawyd ar gyfer y cynllun eleni yn llai nag yn 2013-14. Un ffactor sydd wedi cyfrannu at hyn yw newidiadau i'r rhwymedigaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, sydd wedi lleihau pris carbon yn y farchnad.

"Dwi wedi bod yn argymhell y cwrs hwn i'm ffrindiau i gyd. Mae wedi newid fy mywyd yn llwyr. Dwi'n dysgu sut i yrru ac rwy'n gobeithio sefyll fy mhrawf cyn bo hir. Fe wnes i fy ngorau ac mae wedi talu ffordd, byddwn i'n ei wneud eto!"

- Jordan Thomas, Prentis gyda Nyth




Bodddhad Deiliaid Tai

Mae bodddhad cwsmeriaid â Nyth wedi bod yn gyson uchel dros oes y cynllun. Yn 2014-15, nododd dros 98% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd gan Nyth.

Caiff pob deiliad tŷ sy'n derbyn cyngor gan y cynllun arolwg drwy'r post a gofynnir iddo sgorio'r gwasanaeth yn ôl ei fodddhad. Caiff bodddhad deiliaid tai ei gofnodi a'i reoli, gan gynnwys cwynion sy'n ymwneud â phob cam o siwrnai'r cwsmer.

Mae'r siartiau isod yn dangos bod nifer y cwynion a gafwyd yn cynrychioli llai na 2% o'r holl gwsmeriaid a gafodd becyn gwelliannau ynni cartref a bod y mwyafrif helaeth o gwsmeriaid (98%) yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth gosod a ddarparwyd.



89.14% Bodlon Iawn 9.10% Bodlon 1.8% Ddim yn Fodlon



98.4% Dim Cwynion 1.6% Cwynion

“Byddem yn argymell y cynllun i unrhyw un gan fod fy nghartref bellach mor gynnes a chysurus”

- Mrs H, Coed-duon

“Doeddwn i ddim yn sylweddoli fy mod i'n gymwys ... bydd hi'n braf cael tŷ cynnes unwaith eto. Mae'n gynllun gwych”

- Ms Probert, Glynebwy



Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Nod Nyth yw cyrraedd trawstoriad eang o'r boblogaeth er mwyn sicrhau y gall pawb gael budd o'r cynllun. Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau er mwyn cyrraedd a chefnogi pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol neu sydd ag anghenion neu gyflyrau iechyd penodol.

Gall cartrefi sy'n anodd eu gwresogi effeithio'n arbennig ar bobl â chyflyrau meddygol penodol neu salwch hirdymor. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Nyth wedi gweithio gyda nifer o elusennau a sefydliadau cymorth gan gynnwys Macmillan, y Gymdeithas Strôc, Eiriolaeth Iechyd Meddwl Eiriol a'r Gymdeithas Alzheimer.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Nyth wedi cynyddu gwaith partneriaeth â sefydliadau Cymunedau yn Gyntaf, gan weithio yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn yr un modd, rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau partner er mwyn cyrraedd pobl a chymunedau sy'n agored i niwed. Yn ystod 2014-15, gweithiodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r Cyngor Cydraddoldeb Hiliol, ac aeth i Wyl Eid Casnewydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymhlith aelodau o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME).

Gweithiodd y tîm yn agos gyda Mencap ac amrywiaeth o gymdeithasau gofalwyr ledled Cymru hefyd er mwyn sicrhau y gallai pobl ag anawsterau dysgu a'u teuluoedd gael budd o'r cynllun.

Yn aml, gall pobl anabl ei chael hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth a chynlluniau cymorth. Felly, mae Nyth yn gweithio gyda grwpiau anabled ledled Cymru er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu cael gafael ar gymorth. Yn ystod y flwyddyn, bu'r tîm hefyd yn gweithio gydag Action on Hearing Loss, Sight Cymru, Deafblind Cymru a Sense Cymru.

Mae Nyth yn darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd gwahanol ac mewn fformatau hawdd i'w darllen, braille, sain, print bras a digidol er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio'r cynllun. Drwy weithio gyda'r partneriaid hyn, caiff Nyth gyfle i ddatblygu'r cyngor a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd.

“Rydym wedi bod heb wres ers 12 mlynedd. Ni allaf ddweud wrthy ch y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i'n bywydau”

- Mrs C, Ynys Môn



Edrych i'r dyfodol

Wrth i Nyth gychwyn ar ei bumed flwyddyn, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol:

- Gwella ein gwaith o dargedu aelwydydd incwm isel sy'n agored i niwed a'r aelwydydd hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Byddwn yn cyflawni hyn drwy'r gwaith ymgysylltu mae Nyth yn ei wneud gydag amrywiaeth o asiantaethau partner newydd a phresennol
- Sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, fod cyllid ECO yn cael ei gynnwys yng nghynllun Nyth er mwyn helpu mwy o aelwydydd yng Nghymru

"Mae'n wych gwybod bod y cymorth hwn ar gael i'r sawl sydd ei angen. Mae wedi gwella ein lle byw a bydd yn lleihau ein biliau ac yn helpu'r amgylchedd. Ar ben hynny, doedd dim angen i ni dalu amdano ac roedd y gwasanaeth cwsmeriaid yn wych ac yn ddi-fai." - Mr Jack, Cas-gwent

"Roedd pob cam mor ddi-straen ac roedd eich staff yn ddymunol ac yn gwrtais"
- Mrs Evans, Sir y Fflint

